
Coeden Ddarllen Rhydychen

# 5 Antur yn y Castell

Roderick Hunt Alex Brychta




DRAKE



Aeth yr hud â nhw at gastell.




Roedd tair gwrach yn byw yn y castell.
Roedden nhw'n wrachod cas.



Roedd un yn wrach ddu.
Roedd un yn wrach goch.
Roedd un yn wrach werdd.



Aeth yr hud â'r plant i mewn i'r castell.
Aeth â nhw i ystafell.



Roedd llyffant yn yr ystafell.
'Brenin ydw i,' meddai'r llyffant.
'Fi ydi brenin y castell hwn.'



‘Y gwrachod sydd wedi fy nhroi
i’n llyffant.
Helpwch fi,’ meddai.





Roedd gwrach yn dod.
Y wrach ddu oedd hi.
‘Gwyliwch!’ meddai’r llyffant.



Agorodd y wrach y drws.
Gwthiodd Nain y wrach.
Cymerodd Dids allweddi'r wrach.



Rhedon nhw o'r ystafell.
Cloiodd Dids y drws.
Fedrai'r wrach ddim dod allan.



Rhedodd pawb.
'Gwyliwch!' galwodd Dids.





Roedd gwrach yn dod.
Y wrach goch oedd hi.



'Dydw i ddim yn hoffi gwrachod,'
meddai Nain.
Rhoddodd rwyd dros y wrach.



Fedrai'r wrach ddim dod allan.
'Da iawn, Nain!' galwodd Cad.





Aeth Nain at y wrach werdd.
'Dydw i ddim yn hoffi gwrachod,' meddai Nain.
'Dydw i ddim yn hoffi gwrachod cas.'





Lluchiodd Nain y wrach ar y llawr.
'Help!' gwaeddodd y wrach.
'Da iawn, Nain,' meddai'r plant.



Daeth llyffantod yno a neidio ar y bwrdd.
Y brenin oedd un.



'Helpwch ni!' meddai.
Edrychodd Cad a Nain yn
llyfr y gwrachod.





Trodd y llyffantod yn bobl.
'Diolch!' meddai'r brenin.






Trodd y gwrachod yn llyffantod.
Rhoddodd Nain y llyfr ar y tân.
'O na!' meddai'r gwrachod.



Cafodd y brenin barti.

Aeth pawb yno.

'Am barti da!' meddai Dids.



'Am antur!' meddai Cad.

'Dwi'n hoffi anturiaethau,' meddai Nain.

'Da iawn, Nain!' meddai pawb.



Roedd yr allwedd hud yn disgleirio.
'Mae'n amser mynd,' meddai Cad.
'Da bo chi,' meddai'r brenin.





Aeth yr hud â nhw yn ôl i ystafell Cad.



Syrthion nhw ar wely Cad.
'O na!' meddai Mam.



Argraffwyd yng Nghymru

# 5 Antur yn y Castell

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 5

Llyfr 5

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau Boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o ddim yn Deg
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-157-9

9 780861 741571

ISBN 0 86 174157 9

DRAKE